Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy



# Adroddiad Blynyddol Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy 22/23

monmouthshire
sir fynwy

# Cynnwys


Rheolaeth Fersiwn ........................................................................................ 2
Rhagair y Cadeirydd ...................................................................................... 3
Adroddiad yr Ysgrifennydd ............................................................................ 3
Adolygiad o'r Flwyddyn.................................................................................. 4
Gwaith a Wnaed yn 2022/23 .......................................................................... 5
Rhaglen Waith y Dyfodol ................................................................................ 6
Rôl y Fforwm ................................................................................................. 6
Cysylltiadau ................................................................................................... 7
Atodiad 1: Aelodaeth y Fforwm…….............................................................8
Atodiad 2: Rhaglen Waith y Dyfodol ………………………………………………..9

# Rheolaeth Fersiwn

| | |
|---|---|
| **Teitl** | Adroddiad Blynyddol Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy |
| **Diben** | Adroddiad Blynyddol 22/23 |
| **Perchennog** | Fforwm Mynediad Lleol |
| **Cymeradwywyd gan** | **Cymeradwywyd gan y Fforwm Mynediad Lleol 3 Mai 2023** |
| **Dyddiad** | 18/04/23 |
| **Fersiwn Rhif** | 1.0 |
| **Statws** | **Cymeradwywyd** |

Cyhoeddwyd yn unol â Rheoliad 16 Rheoliadau Mynediad Cefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001 gan yr Awdurdod Penodi, Cyngor Sir Fynwy, ar ran Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy.

# Rhagair y Cadeirydd

Mae'r Adroddiad hwn yn rhoi sylw i ail flwyddyn y Fforwm Mynediad Lleol ('y Fforwm') cyfredol o 26 Ebrill 2020

Cefais fy ethol yn Gadeirydd a fy Nirprwy yw Irene Brookes. Ein Ysgrifennydd yw Matthew Lewis, Rheolwr Amgylchedd a Diwylliant, MonLife ac mae Ruth Rourke, Rheolwr Mynediad Cefn Gwlad, Paul Keeble, Peiriannydd Grŵp Priffyrdd a Rheoli Llifogydd ac arsylwyr o Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynychu cyfarfodydd.

Caiff manylion ein gwaith am y flwyddyn ei osod yn yr Adolygiad isod. Diolch byth, gallodd y Fforwm ddychwelyd i gyfarfodydd wyneb i wyneb eleni yn dilyn y tarfu a achoswyd gan bandemig Covid 19. Mae dychwelyd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb yn cael ei groesawu'n fawr ac mae'n galluogi'r fforwm i weithredu yn fwy effeithiol.

Mae'n dda gweld presenoldeb da iawn gan aelodau yn ein cyfarfodydd ac rwy'n ddiolchgar iawn am gyfraniad yr holl aelodau a'u hystod eang o wybodaeth a phrofiad.

Anne Underwood, Cadeirydd

# Adroddiad yr Ysgrifennydd

Mae'r adroddiad hwn yn nodi cwblhau ail flwyddyn y Fforwm cyfredol o'i gyfarfod ar 26 Ebrill 2022 hyd at  Ionawr 2023.

Ymddiswyddodd un aelod yn ystod y cyfnod ond mae'rfFforwm wedi parhau i weithredu gyda mwy o aelodau na'r isafswm gofynnol. Newidiodd cynrychiolydd yr awdurdod penodi fel canlyniad i'r etholiadau lleol ym mis Mai 2022. Cymerodd y Cynghorydd Ben Callard le y Cyng Ann Webb fel y cynrychiolydd a enwebwyd gan yr awdurdod ar y fforwm.

Daeth darpariaethau Rheoliadau Mynediad Cefn Gwlad (Fforwm Mynediad Lleol) (Cymru) (Coronafeirws) 2020, oedd yn caniatau cyfarfodydd rhithiol, i ben ar 31 Rhagfyr 2021 gan olygu dychwelyd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Cynhaliwyd y cyfarfodydd dilynol ar 26 Ebrill 2022, 19 Gorffennaf 2022 a 26 Ionawr 2023 i gyd wyneb yn wyneb, gydag agenda cyhoeddus ar gael ar wefan y Cyngor.

Mae aelodau'r Fforwm yn parhau i gyfrannu at benderfynu a datblygu materion a pholisi mynediad cefn gwlad yn Sir Fynwy. Rydym yn ddiolchgar iawn am eu mewnbwn gwirfoddol ac am eu profiad a chyngor a'u hymroddiad i waith y Fforwm.

Cafodd y fforwm ei gefnogi drwy ymrwymiad parhaus swyddogion Cyfoeth Naturiol Cymru ac ar draws timau mynediad cefn gwlad, priffyrdd a chyfreithiol gyda Chyngor Sir Fynwy.

Matthew Lewis, Ysgrifennydd

# Adolygiad o'r Flwyddyn

Dyma rai o'r materion y mae'r Fforwm Mynediad Lleol wedi rhoi cyngor arnynt ac yr ymgynghorwyd â nhw amdanynt:-

## 1. Cynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad

Cafodd y Fforwm yr wybodaeth ddiweddaraf ar gynnydd wrth weithredu'r Cynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad yn cynnwys newidiadau staffio, trefniadau partneriaeth a chyflenwi grantiau/prosiectau. Cafodd y Fforwm ddiweddariad ar waith y Swyddog Cysylltiadau Cymunedol newydd a sut oedd hyn yn cefnogi gwirfoddoli cymunedol, gweithio gyda grwpiau gofal llwybr lleol, cynghorau cymuned ac eraill. Fe wnaeth y Fforwm gefnogi dynodi adnoddau gan y Grant Gwella Mynediad Cefn Gwlad i gefnogi'r gwaith hwn.

Dynododd y Fforwm yr angen am is-grŵp gwella i helpu cefnogi gweithredu'r Cynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad ac mae wedi cytuno ar gylch gorchwyl ar gyfer y grŵp newydd hwn.

Mae'r Fforwm wedi cefnogi a chymryd rhan mewn gweithio partneriaeth rhanbarthol dan Raglen Grid Gwyrdd Gwent i helpu datblygu dull cyffredin i reoli mynediad a dynodi gwelliannau strategol i'r rhwydwaith mynediad ar draws Gwent Fwyaf.

## 2. Cyfoeth Naturiol Cymru

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhoi diweddariadau rheolaidd ar reoli tir a gwaith coedwigaeth o ddiddordeb i'r fforwm. Mae'r Fforwm wedi gwerthfawrogi'r dull gweithredu hwn a'r wybodaeth a roddwyd a'r cwestiynau a atebwyd.

## 3. Ymgynghoriadau

Cyfrannodd aelodau'r Fforwm at ymateb i gynigion amlinellol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Roedd aelodau yn bryderus y byddai allgau cynnal a chadw hawliau tramwy presennol fel gofyniad gorfodol yn tanseilio amcanion y cynllun ac nad oedd gan y cynigion drefniadau ymgynghori clir ac effeithlon gyda thimau hawliau tramwy yr awdurdod lleol a'r Fforwm.

.

# Gwaith a wnaed yn 2022/23

| Rhif | Eitem | Ar y rhaglen waith neu yn ychwanegol | Pryd y gwnaed |
|---|---|---|---|
| | **Aelodaeth** | | |
| 1. | Rhaglen waith y dyfodol ac is-grwpiau<br><br>Is-grŵp Gwella Cylch Gorchwyl<br><br>Diweddariad Aelodaeth | Ydi<br><br><br><br>Ychwanegol | 26 Ebrill 2022 a 26 Ionawr 2023<br><br>26 Ionawr 2023<br><br>19 Gorffennaf 2022 |
| | **Cynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad** | | |
| 2 | Prosiectau Grant Gwella Mynediad Cefn Gwlad a diweddariad<br><br>Gweithio Partneriaeth: Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent<br><br>Rhaglen Cysylltiadau Cymunedol<br><br>Staffio, cyflenwi Cynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad a phroblemau | Ydi | 19 Gorffennaf 2022<br><br>26 Ebrill 2022, 19 Gorffennaf 2022 a 26 Ionawr 2023<br><br>26 Ionawr 2023<br><br>26 Ebrill 2022 |
| | **Ymgynghoriadau** | | |
| 3. | Cynigion amlinellol Cynllun Ffermio Cynaliadwy | Ychwanegol | Tachwedd 2022 |
| | **Materion eraill** | | |
| 4. | Adroddiad Blynyddol 20/21<br><br>Diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru | Ydi | 26 Ebrill 2022<br><br>19 Gorffennaf 2022 a 26 Ionawr 2023 |

# Rhaglen Waith y Dyfodol

Cafodd rhaglen waith y dyfodol ar gyfer gweddill cyfarfodydd y Fforwm gyfredol (ym mis Mai, Gorffennaf a Thachwedd 2023) ei thrafod a'i chytuno yn y cyfarfod ar 26 Ionawr ac fe'i atodir (Atodiad 2).

Daw cyfnod swydd aelodau cyfredol y Fforwm (3 blynedd o'r cyfarfod cyntaf) i ben ar 24 Tachwedd 2023 ac felly caiff trefniadau eu rhoi ar waith yn ystod yr haf i ddechrau recriwtio fforwm newydd.

# Rôl y Fforwm

Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a Pharciau Cenedlaethol sefydlu Fforymau Mynediad Lleol. Mae'r fforymau hyn yn cynghori Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar ffyrdd y gellir gwella mynediad lleol.

Diben statudol y Fforymau yw cynghori ar wella mynediad y cyhoedd i dir ar gyfer dibenion hamdden awyr agored a mwynhad o'r ardal lle cawsant eu sefydlu. Mae'n rhaid i Fforymau roi ystyriaeth i anghenion rheolaeth tir, harddwch naturiol, fflora, ffawna a nodweddion daearegol a ffisiograffig.

Mae'n rhaid i'r cyrff dilynol roi ystyriaeth i unrhyw gyngor perthnasol a roddir gan y Fforymau: awdurdodau Parciau Cenedlaethol, awdurdodau priffyrdd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru ac, ar gyfer materion yn ymwneud ag amddiffyn neu ddiogelwch, yr Ysgrifennydd Gwladol.

Mae'n rhaid i'r fforymau gael cydbwysedd rhwng:

- Defnyddwyr tir mynediad a hawliau tramwy lleol; a
- Tirfeddianwyr a defnyddwyr tir mynediad a thir gyda hawliau tramwy.

Caiff pobl gyda buddiannau eraill sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal hefyd eu cynrychioli.

Mae'r Rheoliadau'n dweud y dylai fod rhwng 12 a 22 aelod, yn cynnwys y Cadeirydd a'r Dirprwy. Gall y Cadeirydd hefyd wahodd unigolion a sefydliadau eraill i arsylwi a rhoi cyngor.

Caiff Aelodau eu penodi gan yr Awdurdod Penodi, yr Awdurdod Priffyrdd lleol neu'r Awdurdod Parc Cenedlaethol lleol. Cyngor Sir Fynwy yw'r awdurdod penodi ar gyfer Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy sy'n cynnwys ardal weinyddol Sir Fynwy y tu allan i ffiniau Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae'n cynnwys Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol Dyffryn Gwy sydd o fewn y sir.

Mae tiroedd comin cofrestredig a 1657 cilometr o hawliau tramwy cyhoeddus cofrestredig o fewn yr ardal. Mae hefyd ddarnau sylweddol o ffyrdd sirol heb eu dosbarthu, llawer ohonynt heb wyneb, sy'n gyfrifoldeb yr Adran Priffyrdd.

Mae gan Gyngor Sir Fynwy ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gytundeb cyfrifoldeb a ddirprwywyd ar gyfer y rhan fwyaf o agweddau rheoli'r hawliau tramwy cyhoeddus o fewn y Parc Cenedlaethol.

# Cysylltiadau

Ysgrifennydd Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy

Matthew Lewis
Rheolwr Amgylchedd a Diwylliant
MonLife
Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir, Y Rhadyr
Brynbuga NP15 1GA

Ffôn: 01633 644855
E-bost: countryside@monmouthshire.gov.uk

Mae mwy o fanylion ar Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy ar gael yn Mynediad Cefn Gwlad - Monlife

Mae hyn yn cynnwys dolen i agendâ, adroddiadau a chofnodion y Fforwm ar galendr cyfarfodydd y Cyngor dan y dyddiadau perthnasol Manylion pwyllgor – Fforwm Mynediad Lleol (monmouthshire.gov.uk)  Os nad ydynt ar gael cysylltwch âr Ysgrifennydd os gwelwch yn dda.

# Atodiad 1: Aelodaeth y Fforwm

## a) Aelodaeth 2020/21 (hyd at 24 Tachwedd 2023)

| ENW | DIDDORDEBAU |
|---|---|
| Anne Underwood – (Cadeirydd) | Cerdded a marchogaeth |
| Irene Brooke – (Is-gadeirydd) | Tirfeddianwr a chynrychiolydd busnes |
| John Askew | Defnyddwyr cerbydau a moduron |
| Cynghorydd Ben Callard | Cynrychiolydd Cyngor Sir Fynwy |
| Jenny Cockitt | Tirfeddianwr, amgylchedd naturiol |
| Gordon Davies | Cerdded, addysg a mynediad pobl ifanc |
| Anthea Fairey | Cadeirydd Cyfeillion Dolydd y Castell |
| Sylvia Fowles | Marchogaeth i'r anabl, cadwraeth a hanes |
| Sheila Hampshire | Ffermio, bywyd gwyllt a mynediad cefn gwlad |
| Tracy Hook | Cerdded a marchogaeth |
| Shan Lewis | Cerdded a ffyrdd iach o fyw |
| Phil Mundell | Defnyddiwr a gwirfoddolwr cerdded |
| David Smith | Defnyddiwr cerdded a dringo, arweinydd gwirfoddol grŵp cerdded iach |
| Mark Storey | Seiclo, dringo a cherdded |
| Martin Sweeney | Gweithgareddau awyr agored |

monmouthshire
sir fynwy

# Atodiad 2: Rhaglen Waith y Dyfodol

| Eitem | Cefndir | Trefniadau Adrodd | Cynnydd/Cynlluniau |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Safonol:** | | | |
| Cynllun Gwella Mynediad Cefn Gwlad | Cynnydd wrth weithredu'r Cynllun a gymeradwywyd | Adroddiad rheolaidd | Gweler y Cynllun Cyflenwi – adroddiad cryno Ebrill 23 |
| Mesurau perfformiad | Mesurau perfformiad Cynllun Cyflenwi MonLife ar faterion CAMS | Adroddiad rheolaidd | Gweler y Cynllun Cyflenwi – adroddiad cryno Ebrill 23 |
| Cyllid | Cynnydd ar a chyfleoedd ar gyfer rhaglenni prosiect mynediad cefn gwlad a gyllidir yn allanol ac sy'n derbyn cyllid cyfalaf Cyngor Sir Fynwy | Adroddiad rheolaidd | Rhoddwyd adroddiad ar gynnig y Cynllun Gwella Mynediad Gefn Gwlad i'r Fforwm yn Ebrill 22 |
| Ymgynghoriadau | Ymgynghoriadau i'r Fforwm ar faterion perthnasol fel sydd angen | Adroddiad i'r Fforwm | Ymateb i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy Tachwedd 22 |
| Diweddariadau Cyfoeth Naturiol Cymru | Diweddariad ar weithrediadau coedwigaeth a materion cysylltiedig â mynediad | Adroddiad rheolaidd | Eitem ar yr Agenda Sefydlog |
| **Gweithgorau:** | | | |
| Is-grŵp Gwella (Cynnig) | I'w sefydlu i gefnogi gweithio gyda chymunedau lleol i ddynodi gwelliannau y dyfodol | Adroddiad rheolaidd | Cylch gorchwyl y Fforwm 26 Ionawr 23 |
| Is-grŵp Coedwig Gwent (Cynnig) | Ceisio ailsefydlu trefniadau cydlynu yng nghyswllt Coedwig Gwent (gyda rheolwyr coedwigaeth a Chyngor Sir Casnewydd) | Adrodd fel sydd angen | Trafodaethau yn mynd rhagddynt gyda rhanddeiliaid allweddol i ailsefydlu grŵp Coedwig Gwent |
| Grŵp Mynediad Gwent | Cymryd rhan yn y grŵp mynediad rhanbarthol | Adrodd fel sydd angen | Cyfarfu'r Grŵp ym mis Gorffennaf 22; penodwyd ymgynghorwyr Tachwedd 2022 a chynlluniwyd gweithdy Chwefror 23 |
| **Eitemau Rhaglen Waith** | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hawliadau Gorchymyn Addasu Map Diffiniol | Adolygu nifer yr hawliadau a'u blaenoriaeth | Adrodd i gyfarfod yn y dyfodol | Adrodd i gyfarfod Hydref 23 |
| Diwygio mynediad Llywodraeth Cymru | Derbyn unrhyw ddiweddariad ar gynnydd ar ddiwygio mynediad | Adrodd fel sydd angen | Diweddariadau fel y deuant i law |
| Ffyrdd Sirol Heb eu Dosbarthu Dyffryn Gwy | Ystyried datblygu strategaeth defnyddwyr cynhwysol ar gyfer pob ffordd sirol heb eu dosbarthu yn ardal Gwy isaf a rhwydwaith mynediad cefn gwlad cysylltiedig | Adrodd i gyfarfod yn y dyfodol | Cynllun/Briff y Prosiect yn cael ei baratoi gan yr Ardal Harddwch Naturiol Eithriadol: bwriedir cyflwyno adroddiad i'r Fforwm yn Ebrill 23 |
| Cynlluniau Adnoddau Coedwig | Cymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar Gynllun Adnoddau Coedwig De Dyffryn Gwy Cyfoeth Naturiol Cymru | Adrodd i gyfarfod yn y dyfodol | Dynodi ymgyngoreion posibl Rhaglen i'w chadarnhau |